# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 30.01.18

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Anwen J. Davies, Sian Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P. Roberts ac Angela Russell.

**Swyddogion:** Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant),Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Aelodau Cabinet:** W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a llesiant

**Hefyd yn Bresennol:**

Ar gyfer Eitem 4 isod:
Ffrancon Williams, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Sarah Schofield, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau
Arwel Wyn Owen, Uwch Reolwr Tai a Llesiant

Ar gyfer Eitem 5 isod:
Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifygol Betsti Cadwaladr
Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol
Christine Rudgley - Deputy Area Operational Manager (West Localities)

Ar gyfer Eitemau 6 a 7 isod:
Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Oedolion Gwynedd
Lester Bath, Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant

Ar gyfer Eitem 8 isod:
Steve Grayston, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gwasanaethau Therapi (dwyreiniol)
Gareth Evans, Cyfarwyddwr Ardal Gwasanaethau Clinigol (canolog)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Alan Jones Evans, Peter Read a Cemlyn Rees Williams.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd, am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes oherwydd ei fod yn gyn Gadeirydd Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams oherwydd ei fod yn denant i Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Ni chymerodd yr aelodau ran yn y drafodaeth.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen – Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Sian Hughes oherwydd ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Elin Walker Jones oherwydd ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Dafydd Owen oherwydd bod ei ferch yn gyflogedig fel nyrs i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Rheinallt Puw oherwydd ei fod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen – Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog, gan nodi bod ei ferch yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iv) Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol yn eitem 9 ar y rhaglen gan nodi bod gan ei gŵr a hithau prosthetig, ac ni chymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd fel a ganlyn:

4 Medi 2017 - Pwyllgor Craffu Gofal Arbennig
21 Medi 2017

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

(a) Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan Brif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd gan dynnu sylw mai adroddiad ar gyfer 1 Ebrill 2016 i Mawrth 2017 ydoedd y cynnwys ac sydd yn dilyn trefn eisoes wedi ei gytuno gyda'r Cyngor.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan nodi prif bwyntiau canlynol:

- mai'r ffocws ydoedd cynnal y stoc tai i Safon Ansawdd Tai Cymru ac ail-gychwyn adeiladu tai newydd
- ymhob contract a osodir allan, disgwylir i gontractwyr gymryd rhan drwy fuddsoddi yn y cymunedau a chyfeiriwyd at yr enghreifftiau hynny ym mhwynt 4.2 o'r adroddiad
- gwelwyd o Dabl 1 a oedd yn cyfeirio at y gwahanol elfennau bod y gwaith ar gyfartaledd yn cydymffurfio â SATC 100%, er bod rhai elfennau ddim yn taro 100% esboniwyd y rhesymau o'r methiant

- cyfeiriwyd bod rhai tenantiaid yn gwrthod i waith gael ei wneud ar y tai a bod hyn yn dderbyniol onibai bod y gwaith i'w gwblhau yn unol ag iechyd a diogelwch
- cyflwynir ystadegau i Lywodraeth Cymru yn flynyddol
- o ran y gwaith adeiladu, cydweithir gyda nifer o bartneriaid ac yng nghyswllt cynnal tiroedd enillwyd y gontract gan Gyngor Gwynedd gyda'r gwaith yn dda iawn
- gweithir ar bynciau strategol megis: digartrefedd (18 o dai wedi eu trosglwyddo ar les i'w defnyddio gan Gyngor Gwynedd); darparu tai fforddiadwy (cyfanswm o 39 uned a dros 100 o dai yn cael eu cyflawni eleni drwy ddefnyddio grant cymdeithasol); cynlluniau twf a phwysleisiwyd bod cyfleon ar hyd arfordir Gogledd Cymru sydd o gymorth i CCG gyflawni mwy
- cydweithir yn dda gyda Heddlu Gogledd Cymru a chyfeiriwyd yn benodol at gynllun a threfniadau ym Maesincla.
- Cyfeirwyd at y linciau cadarn rhwng tai a'r gwasanaeth iechyd yn benodol i hwyluso mynediad amserol a haws i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer rhai tenantiaid
- O safbwynt gwasanaeth trwsio, er nad oedd hyn i safon yn y gorffennol 'roedd wedi derbyn ffocws penodol i wella'r gwasanaeth a chyfeiriwyd at lwyddiant ym mhwynt 9.5 gyda'r perfformiad wedi gwella a'r gwasanaeth yn llawer iawn mwy cynhyrchiol a boddhad cwsmer wedi cynyddu
- Arolygir CCG yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru a braf ydoedd nodi bod yr arolygwyr yn ganmoladwy o'r gwasanaeth ac wedi rhagori o safbwynt hyfywedd ariannol

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Mynegwyd mai'r gwyn gyffredinol i sawl Aelod ydoedd diffyg dilyn fyny cwynion tenantiaid yn benodol yn ymwneud a mannau cymunedol, ffenestri ddim yn agor.

Mewn ymateb, eglurwyd bod safon gofal cwsmer wedi gwella ond mai'n amlwg bod rhai problemau yn parhau ac ymddiheurwyd am hyn. Sicrhawyd y byddir yn dilyn y materion penodol a grybwyllwyd i fyny gyda'r swyddog priodol. Nodwyd bod rhaglen fuddsoddi ledled y Sir gyda'r bwriad o uwchraddio mannau cymunedol a hyderir y gellir datrys rhan fwyaf o'r problemau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, nodwyd bod CCG yn gwrando ar denantiaid ac wedi gwneud llawr i wella gofal cwsmer. Pan weithredir gwaith sylweddol ar stad fe fyddir yn ymgynghori yn drwyadl. Ar gyfartaledd nodwyd bod tenantaid yn falch iawn o lle maent yn byw. Rhoddir llawer o bwyslais ar ddiweddaru ag adrodd yn ol wrth denantiaid. Yn ogystal, sicrhawyd bod wardeiniaid yn ymweld ag unigolion ac roedd trefn i ffonio unigolion i ganfod barn am y gwasanaeth sydd wedi profi'n llwyddiant a gwersi wedi eu dysgu o'r ymarferiad hwn. Yn ychwanegol buddsoddwyd mewn sustem TG newydd sydd yn mynd i fod o gymorth ar gyfer tracio gwaith, a.y.b.

(ii) Gyda buddsoddiad o £4m ar gyfer adeiladu tai newydd, gofynnwyd a fyddai'r tai yn addas i anghenion pobl hyn a'r anabl.

Mewn ymateb, nodwyd bod CCG yn cydweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor mewn perthynas ag addasiadau lles i dai a phwrpas hyn ydoedd helpu tenantiaid i fedru aros yn eu cartrefi yn hirach.

O safbwynt tai newydd, cydweithir yn agos gydag Uned Strategol Tai y Cyngor ac yn cydymffurfio a safonau perthnasol ac fe fyddir yn cymryd arweiniad ar y cyd o ran adeiladu yn unol a blaenoriaeth.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a chynnal a chadw llwybrau cerdded a adnewyddir fel rhan o fuddsoddiad cymunedol gan gontractwyr, eglurwyd nad oedd contractwyr yn atebol i'w cynnal a'u cadw. Eglurwyd ymhellach bod rhai llwybrau wedi eu mabwysiadu gan yr awdurdod lleol neu mewn rhai achlysuron gan Gynghorau Cymuned / Tref ac felly byddai'r cyfrifoldeb o'u cynnal a'u cadw yn disgyn ar yr awdurdodau hyn. Felly byddai'n rhaid canfod statws y llwybrau ac yng nghyswllt llwybr cerdded Llwyn y Ne, Clynnog byddai'n ofynnol ymchwilio ymhellach.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a difa pla, esboniwyd nad oedd trafferth gyda'r gontract difa pla ac eglurwyd ar y trefniadau sydd mewn lle. Edrychir ar y gontract yn flynyddol ac fe nodwyd ei fod yn gweithio'n llwyddiannus

(v) O safbwynt buddsoddi yn y gymuned, eglurwyd bod y materion cymunedol a restrir ym mhwynt 4.2 o'r adroddiad wedi eu hychwanegu ar y gontract. Roedd y Grant Cymunedol wedi lleihau ond cadarnhawyd bod arian yn parhau ar gael ond drwy drefn wahanol. Nodwyd ymhellach bod CCG wedi datblygu strategaeth cymunedol ac yn trafod gyda chymunedau ac yn barod i dderbyn achosion busnes. Cadarnhawyd y byddir yn rhannu'r strategaeth gydag Aelodau etholedig ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau / syniadau pellach gan Aelodau.

(vi) Nad oedd rhai elfennau gwaith o fewn Tabl 1 yn yr adroddiad yn cydymffurfio a SATC a gofynnwyd felly a fydd y materion hyn yn cael eu cofnodi ymhellach yn ystadegau y flwyddyn ganlynol i sicrhau had ydynt yn mynd yn anghof?

Mewn ymateb, esboniwyd y cyflwynir yr ystadegau i Lywodraeth Cymru ac fe ellir gweld yn union pa dŷ sydd ddim yn cydymffurfio ond ei bod yn anodd mewn achosion lle mae tenant wedi gwrthod i waith gael ei wneud ar dŷ.

(vii) Pam bod rhent Gwynedd yn is nag awdurdodau eraill y Gogledd? Mewn ymateb, nodwyd bod y polisi gosod rhent yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru ac o'r ystadegau rhoddir ystyriaeth i gyflogau wythnosol cyfartalog, fforddiadwyedd tenant i fedru talu, fforddiadwyedd i fedru prynu tai, economi y sir, ac felly roedd cyflog cyfartalog Gwynedd yn isel o'i gymharu a'r awdurdodau cyfagos.

(viii) Yn dilyn o'r uchod, gofynnwyd a fyddai hyn yn reswm pam bod trigolion yn symud i Wynedd am bod y rhent yn isel?

Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr uchod yn gywir o reidrwydd, oherwydd bod ffactorau eraill pam bod unigolion yn symud i'r ardal megis faint o dai sydd ar gael, cefndir teuluoedd, a.y.b. Nodwyd ymhellach bod deddfwriaeth yn rheoli gyd-gyfnewid tai a bod gan unigolion hawl i roi cais i symud gyda'r cais yn llwyddo os ydynt yn cyrraedd y gofynion priodol.

(ix) Mewn ymateb i gwestiynau / sylwadau, nodwyd:

- O safbwynt cael mynediad i dai bod trefn gyfreithiol i'w ddilyn ac fe barchir dymuniad tenantiaid os nad ydynt yn fodlon i gyflawni gwaith ar eu tai
- Ceisir y gorau i ddenu tenantiaid drwy hysbysebu ac yn fwy diweddar sefydlwyd hyfforddiant a elwir yn academi tenantiaid a hyderir y gellir denu fwy o ddiddordeb drwy hyn
- O ran cau swyddfeydd ym Mhwllheli, cadarnhawyd bod canolfan lloeren yno ac anogwyd aelodau i hysbysebu hyn wrth denantiaid. Yn ogystal, gall swyddogion ymweld a tenantiaid pe byddai angen.
- sicrhawyd na fyddai gwasanaeth i dai Gwynedd yn dirywio drwy i CCG weithio tu allan i'r Sir

(x) Gofynnwyd a fyddai modd adnewyddu stoc tai gwag o fewn cymunedau yn hytrach nag adeiladu o'r newydd fel bo modd cadw cymeriad traddodiadol pentrefi?

Mewn ymateb, eglurwyd y byddir yn edrych ar unrhyw ddatblygiadau yn fanwl ac fe geisir hybu cymunedau ymhob agwedd ond rhaid sicrhau bod y buddsoddiad a wneir yn hyfyw dros 30 mlynedd a rheswm dros hynny oherwydd y benthyciadau ar gyfer adnewyddu.

(xi) Gofynnwyd cwestiwn ar ran aelod oedd yn absennol o'r cyfarfod ynglyn ag achos yn ei ward lle roedd CCG wedi gorfodi tenant i newid tân agored am dân trydan. Mewn ymateb, esboniwyd bod polisi gan CCG ar gyfer cyfleon i gau simneiau a gosod gwresogyddion trydan effeithiol er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch y tenantiaid. Fodd bynnag pwysleiswyd eu bod yn ymdrin yn sensitif i achosion ond nad oedd yn gyfarwydd a'r achos penodol a gyfeiriwyd ato.

(xii) Croesawyd unrhyw syniadau a chyfleon gan aelodau mewn adnabod ardaloedd o fewn eu wardiau lle bo siawns i ddatblygiadau cymunedol.

(xiii) O safbwynt diffyg parcio ar stadau, cydnabuwyd bod y mater yn broblemus oherwydd diffyg cyfyngder tir ar stadau ond fe geisir ymgymryd a gwaith amgylcheddol lle bo hynny'n bosibl.

(xiv) Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a chanran o fethiant i wneud gwaith ar dai tenantiaid, nodwyd yn y 5/6 mlynedd diwethaf mai oddeutu 10% o denantiaid wrthodwyd gwaith i'w tai ond prysurwyd i nodi bod y ganran wedi dod i lawr erbyn hyn.

(xv) Gofynnwyd a oedd modd fel rhan o'r trefniadau caffael i gontractwyr bach lleol i ymgymryd a gwaith i CCG. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod modd ond ei fod yn gymhleth o safbwynt gofynion cyfreithiol a hysbysebu contractau.

(xvii) Sicrhawyd bod wardeiniaid a wardeiniaid tai gwarchodol yn ymweld ag unigolion sydd dros 80 oed.

I gloi, diolchwyd i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau am yr adroddiad a'r ymatebion clir i'r cwestiynau gyflwynwyd uchod. Hefyd, gofynnwyd i'r swyddogion gyfleu diolchiadau'r aelodau i weithlu CCG am eu gwaith clodwiw ac yn arbennig ymateb gwych i ymholiadau dros y ffon.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**5. DARPARIAETH IECHYD YN ARDAL BLAENAU FFESTINIOG**

(a) Cyflwynwyd diweddariad ar y mater uchod ynghyd ag:

- ymatebion i'r argymhellion wnaed gan y Pwyllgor Craffu Gofal hwn ar 21 Medi 2017
- Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Adroddiad y Pwyllgor Deisebau dyddiedig 22 Ionawr 2018

(b) Croesawodd yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant adroddiad y Pwyllgor Deisebau a oedd yn cymeradwyo chwe argymhelliad y Pwyllgor Craffu Gofal hwn wnaed ar 21 Medi 2017.

(c) Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsti Cadwaladr at argymhelliad (i) yn Atodiad A o'r adroddiad a chadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r argymhelliad a'r wybodaeth wedi ei rannu gyda'r Pwyllgor Craffu.

(ch) O safbwynt argymhelliad (ii) sef gofyn am adroddiad ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog gan asiantaeth annibynnol yn syth, tynnodd Aelod sylw bod y Pwyllgor Deisebau yn nodi bod 98% yn anghytuno i gael gwared o welyau. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, 'roedd y Pwyllgor yn gytun mai'r ffordd orau ymlaen ydoedd cadw at y briff gwreiddiol a gofyn i'r Cyngor Iechyd Cymuned ymgymryd â'r dasg i ymchwilio i'r ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog a darparu adroddiad o'r casgliadau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid sicrhau yr un pryd eu bod yn barod i'w ariannu.

(d) Yng nghyd-destun derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarparir yn y Ganolfan Goffa newydd ym Mlaenau Ffestiniog, esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol y byddir yn cynnal arfarniad ôl prosiect er mwyn edrych a yw'r gwasanaethau wedi cyrraedd targedau o fewn y cynllun busnes ac y byddir yn adrodd ar hyn i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn byddir yn casglu ymatebion gan ddefnyddwyr y gwasanaethau ac os oes unrhyw wendidau gellir ymateb.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant y byddai'n fuddiol i gyflwyno adroddiad ar gasgliadau'r arfarniad o wasanaethau yn y Ganolfan Newydd i'r Pwyllgor Craffu Gofal hwn, ac awgrymwyd ymhellach, yn ddibynnol ar y canlyniadau, y gall y Pwyllgor Craffu Gofal gynnal ymchwiliad pellach.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â sut fydd trigolion Blaenau Ffestiniog a'r Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Goffa Blaenau yn cael mewnbwn, nodwyd bod modd cyflwyno cwynion fel rhan o drefn ond sicrhawyd y byddir yn creu proses ymgysylltu penodol ar ddiwedd tymor yr haf i ofyn am adborth am brofiadau ar y gwasanaethau yn y Ganolfan Goffa newydd ers ei agoriad. Ychwanegwyd y gall y Cyngor Iechyd Cymuned ymgymryd â'r broses yma hefyd.

Roedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol o'r farn bod y gwasanaethau yn wych yn yr adeilad newydd a oedd yn cynnwys therapyddion, fferyllwyr, gwasanaethau yn cydweithio hefo'i gilydd ac yn fwy sefydlog erbyn hyn yn ogystal a recriwtio meddyg teulu.

Mewn ymateb i'r uchod, eglurodd Aelod mai'r prif gwynion ydoedd amddifadu trigolion Blaenau Ffestiniog o'r gwasanaethau hynny oedd ar gael yn yr Ysbyty Goffa Ffestiniog megis gwelyau i gleifion, darpariaeth pelydr-x ac uned mân-anafiadau.

(dd) Cadarnhaodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd ac yn y broses o ddarparu rhaglen waith ar gyfer cynnal asesiad hygyrchredol yn nalgylch Ysbyty Alltwen (Argymhelliad (iv) yn Atodiad A).

Apeliodd y Pwyllgor Craffu i'r Adrannau perthnasol brysuo ymlaen a'r uchod cyn gynted ag sy'n bosibl yn wyneb y ffaith bod rhai trigolion wedi profi anhawsterau i gyrraedd Ysbyty Alltwen.

(e) O safbwynt argymhelliad (v) sef yr angen am gartrefi addas ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys darpariaeth o dai gofal ychwanegol yn ardal Blaenau Ffestiniog, esboniodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod ystyriaeth adrannau ymarferol wedi eu cymeryd yn y gorffennol o ran ychwanegu darpariaeth o'r fath yn ardal Ffestiniog. Ers hynny mae amgylchiadau wedi newid ac efallai bod cyflëi i ail-edrych ar y sefyllfa fel rhan o'r adolygiad o anghenion tai ar draws y Sir gyfan. Nodwyd bod yna fylchau i'w llenwi o ran cael y gymysgedd iawn o dai ar draws y Sir ac y byddai yr holl anghenion yn cael eu

hystyried wrth flaenoriaethu buddsoddiad. Ychwanegwyd bod y data ar gael gan y Bwrdd Iechyd o gleifion sydd yn disgwyl am gartrefi gofal, preswyl, nyrsio, a.y.b. ac efallai y byddai'n fuddiol i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a llesiant a'r Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifygol Betsti Cadwaladr, drafod y ffordd ymlaen o'r wybodaeth gyfredol sydd ganddynt. Ychwanegodd Aelod yr angen i drafod hefyd gyda phartneriaid megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd / Cynefin sydd yn awyddus i gyfrannu at y ddarpariaeth.

Er gwybodaeth, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd gyda phartneriaiad yn y maes tai gan gynnwys y Bwrdd Iechyd ond bod llawer o waith i'w gyflawni ynglyn â buddsoddi ac union leoliadau.

(f) O safbwynt argymhelliad (vi) yn yr Atodiad sef recriwtio staff gofal a iechyd, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin, BIPBC, bod y mater dan sylw wedi symud ymlaen o ran recriwtio gweithwyr generig yn Ne Gwynedd sef ardaloedd Tywyn a Dolgellau. Os yw'r model yn llwyddiannus hyderir y gellir ei ledaenu i ardaloedd eraill o fewn y Sir. Fel rhan o'r model, Cyngor Gwynedd fydd yn cyflogi gyda'r gweithwyr gofal yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn ymgymryd a rhaglen hyfforddiant hyd at 6 mis i gael cymhwyster meddygol ar gyfer y swydd. Ar hyn o bryd, cyflogwyd 3 unigolyn a byddir yn monitro effeithlonrwydd y swyddi cyn ei ledaenu ymhellach.

Ategodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a llesiant bod recriwtio staff yn bryder difrifol a bod angen meddylfryd gwahanol boed hyn yntai yn becynnau gwaith / cyflog, gan bod elfennau eraill megis hysbysebu / cydweithio gydag ysgolion / colegau wedi bod yn aflwyddiannus i ddenu mwy o weithwyr i'r maes gofal.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad a'r sylwadau uchod.**

**(b) Cymeradwyo'r argymhellion o fewn Atodiad A i'r adroddiad ac i weithredu fel a ganlyn:**

**Argymhelliad (i) - bod y wybodaeth eisoes wedi ei rannu i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal.**

**Argymhelliad (ii): - gwahodd Cyngor Iechyd Cymuned i gynnal archwiliad annibynnol i ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog a darparu adroddiad ar y casgliadau, i gynnwys yr effaith o amddifadu'r ardal o welyau cleifion, colli'r cyfleusterau pelydr-x ac uned mân anafiadau.**

**Gofyn i Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rannu gwybodaeth a data o'r asesiad ôl brosiect mewn perthynas ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth iechyd cyfredol (Canolfan Goffa) yn ardal Blaenau Ffestiniog.**

**Argymhelliad (iii) - I annog BIPBC i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau Ffestiniog mewn perthynas â monitro darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol.**

**Argymhelliad (iv) - Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**gyflwyno diweddariad o'r trafodaethau ynglyn ag asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen.**

**Argymhelliad (v) - Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno diweddariad yn dilyn trafodaethau ynglyn â darpariaeth tai gofal ychwanegol.**

**Argymhelliad (vi) - Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno diweddariad ynglyn â recriwtio i gynnwys adborth ynglyn â model gweithwyr generig.**

**Gofynnir i gyflwyno'r diweddariadau i'r Pwyllgor Craffu Gofal mewn perthynas ag argymhellion (iii) – (vi) ymhen 9 mis i 12 mis.**

## 6. CYNLLUN ALLTWEN

(a) Cyflwynwyd diweddariad ar gynnydd a datblygiad y cynllun uchod ac fe dywysodd yr Uwch Reolwr Oedolion Gwynedd drwy'r adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r model gweithio intregredig Cynllun Alltwen. Braf ydoedd nodi bod elfennau wedi symud ymlaen gyda enghreifftiau da o'r gwahanol dimau yn gweithio mewn ffordd wahanol. Rhestrwyd y 5 ardal lle estynnir y cynllun integredig sef:

Ardal Bangor
Ardal Caernafon
Ardal Llyn
Ardal Eifionnydd / Gogledd Merionnydd
Ardal De Meirionnydd

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd yr Uwch Reolwr Oedolion Gwynedd fel a ganlyn:

(i) Cydnabuwyd bod angen ystyried ymestyn oriau darparu gwasanaeth integredig dros 7 diwrnod. Bydd yn sialens gweithredu ymestyniad mewn oriau a dyddiau gwaith o fewn y gweithlu presennol heb adnoddau staffio ychwanegol. Rhaid bod yn ofalus fod unrhyw newid mewn oriau ddim yn amharu ar y gallu i ymateb yn effeithiol yn ystod oriau craidd ac yn cyd-fynd a'r egwyddor o gadw perchnogaeth dros achos. Bydd yn fwriad cwblhau gwaith pellach wedi sefydlu gwasanaeth o fewn 5 ardal i weld beth yw'r galw am gefnogaeth wedi oriau swyddfa arferol ac ar benwythnosau ac adnabod pa sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â'r angen wedi oriau craidd. Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Oedolion at enghraifft o fesur y galw mewn perthynas ag ystyried ymestyn oriau gweithio gofalwyr cartref dros nos yn Ne y Sir. Roedd rhan fwyaf o'r galwadau yn ymwneud a'r angen am sgiliau nyrs a prin oedd yr enghreifftiau o'r angen am wasanaeth gofalyddion.

Nodwyd ymhellach fod gwasanaeth allan o opriau eisoes yn gweithredu dros Wynedd a Môn.

(ii) O ran amserlen ar gyfer darpariaeth un system electronig integredig i'r timau esboniwyd fod yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio sustem newydd WCCIS ers Awst 2017. 'Roedd bwriad i'r Bwrdd Iechyd ymuno yn fuan, ond nid oedd yr Uwch Reolwr Oedolion yn gallu rhoi dyddiad. Cytunwyd i ofyn i'r Uwch Reolwr Trawsffurfio am

ddiweddariad o ran amserlen Ychwanegwyd bod heriau o ran cofnodi y wybodaeth yn ddwyieithog sydd ar adegau yn gallu cymhlethu gweithio'n integredig.

(iii) Er gwybodaeth bellach, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at "Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru" dan arweiniad Dr Ruth Hussey, a chalonogol ydoedd nodi bod y ffurf uchod yn sylfaen dda o weithio ac yn cydfynd gyda llawer o elfennau yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Oedolion Gwynedd anfon rhifau cyswllt y Timau Integredig yn y 5 ardal i aelodau'r Pwyllgor Craffu.**

**(c) Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wahodd aelodau'r Pwyllgor Craffu i ymweld â'r Timau Ardal pan yn gyfleus.**

**(ch) Gofyn i'r Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu anfon y linc isod i aelodau'r Pwyllgor Craffu er mynediad i'r adroddiad gyfeirwyd yn (iii) uchod:**
http://gov.wales/topics/health/nhswales/review/?skip=1&lang=cy

## 7. ADRODDIAD YMCHWILIAD GOFALWYR DI-DÂL

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion yn deillio o ymchwiliad a gynhaliwyd o'r math o gefnogaeth oedd ar gael i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd.

(b) Tywysodd y Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant drwy'r adroddiad gan nodi'r prif bwyntiau isod:

- Bod Gofalwyr Cymru wedi penodi swyddog i'r Gogledd i hybu adnabyddiaeth gofalwyr cudd
- Bod Grwp Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn wedi llunio strategaeth ac un o'r amcanion ydoedd dod o hyd i ofalwyr cudd
- Parheir i ymgymryd ag asesiadau a cheisir gwneud hyn mor fuan ag sy'n bosibl
- O ran adborth gan ofalwyr derbyniwyd llai na 100 allan o 500 o holiaduron yn ol ac roedd ymatebion yr holiaduron dderbyniwyd yn ôl gan ofalwyr unigolion gydag iechyd meddwl yn eithaf calonogol
- O safbwynt gwybodaeth a chynghori, nodwyd bod canllawiau wedi cael ei cynhyrchu ac yn ol ar y wefan i dynnu sylw staff / gofalwyr gydag linciau perthnasol
- Cydweithir gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Derbyniwyd grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal ysbaid i ofalwyr ond tynnwyd sylw nad oedd digon o bobl sydd yn gweithio yn y maes i ddarparu gofal ysbaid yn benodol ym Meirionnydd
- Bod arbedion a thoriadau yn cael effaith ar y gwasanaeth
- Iaith gymraeg – bod angen cyfieithu dogfennau a dderbynnir gan y gwasanaeth iechyd i'r gymraeg, a rhai darparwyr yn cael trafferth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig yn Ne'r Sir.

Annogwyd Aelodau etholedig i hysbysu'r gwasanaeth os ydynt yn ymwybodol o ofalwyr cudd yn eu wardiau sydd yn edrych ar ôl teulu fel bo modd i'r gwasanaeth gynnig cymorth iddynt

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ac fe ymatebodd y Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant fel a nodir isod:

- gofynnwyd a oedd y gwasanaeth yn addas i bwrpas ac mewn ymateb, nodwyd bod gofynion y Ddeddf newydd yn her, a'r angen i gydweithio hefo partneriaid yn y maes. Ychwanegwyd yr angen i fod yn realistig a cheisio canolbwynio ar ddau neu dri o'r amcanion.
- Ategwyd, bod cyfarch gofynion y ddeddf yn bwysig a'r angen i ystyried sut y gellir cael y gwerth gorau o'r arian drwy adolygu a blaenoriaethu
- O safbwynt cyfarch anghenion a chefnogi pobl ifanc sy'n ofalwyr, cydweithir yn agos gyda Phrifysgol Bangor sydd yn cynnig cyfnod preswyl i ofalwyr ifanc iddynt gael blas o'r hyn sydd ar gael ac i'w hannog i ennill cymhwyster mewn gofal. Yn ogystal, cydweithir gyda'r Grwp Rhanbarthol.
- O'r grant o £114,000 a dderbyniwyd ar gyfer 2017/18 rhannwyd £60,000 gyda'r trydydd sector a'r gweddill yn cefnogi gofalwyr gydag anableddau dysgu, Derwen a gofalwyr sydd yn gofalu am sibling.
- Mewn ymateb i sylw wnaed gan aelod am brofiad personol tra bo teulu wedi derbyn cefnogaeth cychwynnol dda iawn yn dilyn i glaf ddod gartref o'r ysbyty, nid oedd gofalwyr wedi ail-ymweld â'r teulu, anogwyd Aelodau i gyfeirio teuluoedd at y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr sydd yn siop-un-stop fel bo modd eu cyfeirio i'r sector gywir. Yn ôl y Ddeddf newydd pwysleisir i deuluoedd dderbyn cefnogaeth ataliol yn y gymuned.
- Cyfeiriwyd at gynllun ar gyfer plant ifanc sy'n ofalwyr lle bo modd iddynt gael ipads a'r gwasanaeth yn gallu cysylltu â hwy drwy "Skype" a hyderir y bydd mwy o wybodaeth am y cynllun hwn maes o law
- O safbwynt y trydydd sector yn darparu gofal, nodwyd bod teuluoedd yn dymuno glynu at yr un gofalwyr
- Croesawyd bod y gwasanaeth yn fwy creadigol i adnabod gofalwyr a thra bo Hafan y Ser yn adnodd gwych, pryderwyd am y ddarpariaeth ar gyfer teuluoedd lle nad yw'r plant yn cwrdd â meini prawf Derwen. Mewn ymateb, nodwyd bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa a hyderir y bydd yn cael datrysiad yn fuan.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, y byddai mewn sefyllfa i rannu gwybodaeth ynglyn â chreu Uned Tanymarian, mewn oddeutu chwe wythnos.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**8. CEFNOGI POBL ANABL GWYNEDD**

(a) Cyflwynwyd briff ar gyfer Ymchwiliad Craffu ar gyfer cefnogi pobl anabl Gwynedd ac yn benodol addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd yn ogystal â gwasanaeth i unigolion gyda chyfarpar prosthetig.

(b) Esboniodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gwasanaethau Therapi (dwyreiniol), Bwrdd Iechyd, bod darpariaeth prosthetig wedi cael ei gynnig yn y gorffennol yn Bryn y Neuadd, Llanfairfechan, a'r angen i adolygu lle byddir yn darparu'r gwasanaeth i drigolion yn yr ardal orllewinol boed hyn yn Bryn y Neuadd neu mewn clinigau lloeren ym Mangor yn hytrach na theithio i Ysbyty Maelor Wrecsam. Er eglurder, tynnwyd sylw mai'r enw a ddefnyddir ar y gwasanaeth bellach ydoedd Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (Posture and Mobility Service) yn hytrach na ALAC. Eglurwyd ymhellach

bod strwythur yng Nghymru ynglyn â darpariaeth cadeiriau olwyn o fewn trefniadau caffael Llywodraeth Cymru ac nad oedd y penderfyniadau o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Iechyd.

(c) Eglurwyd bod y mater wedi codi pryd y bu i'r Cynghorydd Peter Read gyflwyno rhybudd o gynnig i gyfarfod o'r Cyngor yn cyfeirio cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar raglen craffu.

(d) Mewn ymateb i'r uchod, diolchodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu i swyddogion y Bwrdd Iechyd a gofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu oddeutu 5 aelod i wasanaethu fel rhan o'r ymchwiliad.

(e) O safbwynt enwebu, derbyniwyd cyngor gan yr Uwch Gyfreithiwr na ddylai aelod, a / neu aelod sydd â theulu, sydd yn derbyn gwasanaeth personol gan y darparwyr cadeiriau olwyn / prosthetig fod yn rhan o'r ymchwiliad gan y byddai'n anodd gwahanu buddiant a phrofiadau personol oddi wrth ystyriaethau gyffredinol

(f) Cytunodd y Cynghorwyr R. Medwyn Hughes a Dewi Roberts i fod yn rhan o'r ymchwiliad ond oherwydd buddiant personol sawl aelod ac ymrwymiadau a phwysau gwaith gan eraill ni lwyddwyd i dderbyn enwebiadau ychwanegol. Awgrymwyd felly, i drafod ymhellach yn y cyfarfod anffurfiol y posibilrwydd o anfon e-bost i'r holl Aelodau i ganfod enwebiadau gan aelodau a oedd yn awyddus i fod yn rhan o'r drefn graffu, i leihau baich y craffwyr presennol.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo briff terfynol i'r Ymchwiliad Craffu ar gyfer Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd, gan ychwanegu darpariaeth prosthetig.**

**(b) Ethol yr Aelodau canlynol i wasanaethu fel rhan o'r Ymchwiliad:**

**Y Cynghorwyr R. Medwyn Hughes a Dewi Wyn Roberts**

**ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod anffurfiol o ddenu enwebiadau pellach i wasanaethu ar yr ymchwiliad.**

**9. BLAEN RAGLEN CRAFFU 2018**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, blaenrageln craffu y Pwyllgor hwn fel mae'n sefyll ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chrafu drafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ar gynnwys eitemau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gofal sydd i'w gynnal 8 Mawrth 2018.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 1.30 p.m.

**CADEIRYDD**